# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2019**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HAF 2019**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Arwyr'. Darllenwch bob **un** o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**100 o Arwyr Cymru**

**A1.** Pa arwr gafodd 1,627 o bleidleisiau? [1]
Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

Un marc am nodi:

David Lloyd George

(Casglu gwybodaeth)

**Darn Darllen 2**
**Arwr**

**A2.** Beth yw ystyr 'anghyffredin'? [1]
Rhowch ✓yn y blwch priodol.

Un marc am:

| | ✓ |
|---|---|
| Rhywbeth sy'n debyg iawn i bethau eraill arferol | |
| Rhywbeth sy'n wahanol i bethau arferol | ✓ |

(Ystyr Gair / Dehongli)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Arwyr! # GwladGwlad**

**A3.** Ble byddwch chi'n gallu gweld y Casgliad Portreadau Cenedlaethol? [1]

Un marc am:

Llyfrgell Genedlaethol Cymru/Uwch Gyntedd/Aberystwyth
Rhaid sillafu yn gywir.
Rhaid cael prif lythyren i 'Aberystwyth, Llyfrgell, Cymru'.
Gellir derbyn nad oes prif lythyren i 'Genedlaethol' ac 'Uwch Gyntedd'.
Rhaid treiglo 'Genedlaethol' a 'Gyntedd'.

✓ = 1 marc
(Casglu gwybodaeth)

**A4.** Pa ddiwrnod fedrwch chi ddim gweld yr arddangosfa? [1]
Rhowch ✓yn y blwch priodol.

Un marc am nodi:

Dydd Sul

(Dehongli gwybodaeth)

**Darn Darllen 4**
**Arwres y Cymry - Gwenllian**

**A5.** Pa **ddau** beth sydd wedi eu henwi ar ôl Gwenllian? [1]
Rhowch✓yn y blwch priodol.

Un marc am nodi:

cae a ffynnon

(Casglu a dehongli gwybodaeth)


© WJEC CBAC Cyf.

**A6.** Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓·yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi'n barod. [2]

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Bu farw Gwenllian yn 1100. | | ✓ |
| Roedd Gwenllian yn ferch i Gruffydd ap Rhys. | | ✓ |
| Roedd gan Gwenllian dri mab. | ✓ | |
| Cafodd Gwenllian ei lladd mewn brwydr. | | ✓ |
| Roedd llawer o ferched yn arwain brwydrau yn yr Oesoedd Canol. | | ✓ |

Gwobrwyir un marc am unrhyw 2 ateb cywir hyd at 2 farc.
1 ateb yn gywir – 0 marc
2 ateb yn gywir – 1 marc
3 ateb yn gywir – 1 marc
4 ateb yn gywir – 2 farc
Os yw ymgeisydd wedi nodi x ar gyfer yr atebion anghywir a ✓ar gyfer yr ateb cywir – gellir derbyn hynny.

Mewnbynnu marc
(Dehongli gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Lansio Cystadleuaeth 'Ffermwraig y Flwyddyn'**

**A7.** Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r darn darllen, yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth yw ystyr yr isdeitl 'Arwresau cudd y diwydiant'. [3]

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- arwres yn ferch sy'n cael ei hedmygu/sy'n gwneud rhywbeth da
- y diwydiant yw ffermio
- cudd - gweithio'n dawel heb dynnu sylw atynt eu hunain
- weithiau â dim syniad o faint eu cyfraniad

Ni ellir gwobrwyo os yw ymgeisydd yn sôn am Arwresau cudd y diwydiant fel cystadleuaeth. Heb ateb y cwestiwn.

Rhaid i'r ymgeisydd aralleirio – tynnir un marc o'r cyfanswm am ddefnyddio union eiriad y darn darllen.

**0 marc**
Dim i'w wobrwyo

**1 marc**
Esboniad cryno a sylfaenol/esboniad o ran o'r isdeitl

**2 farc**
Esboniad syml o'r isdeitl cyfan/esboniad sy'n dangos dealltwriaeth gadarn o rannau allweddol yr isdeitl

**3 marc**
Dealltwriaeth aeddfed ac esboniad manwl o arwyddocâd yr isdeitl

Mewnbynnu marc
(Dehongli ystyr)

**Darn Darllen 6**
**Merci Cymru**

**A8.** Ym mha flwyddyn aeth Iola Wyn, am y tro cyntaf erioed, i wylio Cymru'n chwarae pêl-droed? [1]

Un marc am nodi:

1993
Ni dderbynnir '93. Derbynnir geiriau am y rhif (hyd yn oed os oes camsillafu).

✓ = 1 marc
(Casglu gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**A9.** Sut mae teimladau Iola Wyn yn newid yn y darn isod? Dylech gyfeirio at y darn i gefnogi'ch ateb. [4]

Gellir cyfeirio at bwyntiau megis:

- fawr o ddiddordeb mewn pêl-droed ar y dechrau
- eisiau plesio ei chariad newydd
- ddim yn deall pa mor bwysig oedd y gêm yn erbyn Romania
- teimlo siom wrth i Gymru fethu cic o'r smotyn – dechrau diddordeb
- dechrau mynd i gemau – cymryd diddordeb cyson
- teimlo torcalon o weld Cymru'n colli ond arfer gyda hynny
- edmygu ei gŵr a'i ffrindiau am fod yn driw i'r tîm
- gadael i'w gŵr ddilyn Cymru ar yr amod y câi'r gwragedd drip pan gyrhaeddai Cymru rowndiau terfynol – gallu dehongli hyn fel diddordeb pan maent yn llwyddo neu fel aberth er mwyn gadael i'w gŵr barhau i gefnogi
- cynllunio mawr - awgrymu cyffro
- methu ag ysgrifennu am ei phrofiad ar y pryd (er ei bod yn hoff o rannu barn ar wefannau cymdeithasol) – ofn methu â gwneud cyfiawnder â'r profiad
- wedi gwirioni â'r profiad/methu rhoi geiriau i'r profiad

Y newid:

- dim diddordeb
- siom
- cefnogi
- torcalon
- gobaith am y dyfodol
- cyffro

**0 marc**
Dim i'w wobrwyo

**1 marc**
Gallu **enwi ambell deimlad** gan gysylltu â phrofiad o'r darn darllen o bosib (rhaid cael mwy nag un teimlad gwahanol)

**2 farc**
Deall ambell **newid yn nheimladau'r awdur** gan gyfeirio at y darn darllen

**3 marc**
Dealltwriaeth dda o'r **newid teimladau** gyda chyfeiriadau cyson at y darn darllen a dangos y gallu i ddehongli

**4 marc**
Dealltwriaeth aeddfed o'r **newid teimladau** a dehongli deallus yn ogystal â chyfeiriadau pwrpasol at y darn darllen

t - tystiolaeth
d - dehongli

✓ - teimlad

Mewnbynnu marc
(Dehongli a rhesymu)



© WJEC CBAC Cyf.

**A10.** Mae nifer o ansoddeiriau yn y darn isod. Tanlinellwch **un** ansoddair. [1]

| |
|---|
| Diwedd siwrnai bêl-droed <u>hudol</u> ac <u>unigryw</u>. Dyna'r mis mwyaf <u>lledrithiol,</u> <u>bendigedig</u>, <u>ardderchog </u>dw i'n ei gofio. |

✓ = 1 marc

**A11.** Trafodwch pa mor effeithiol yw'r ansoddair. [2]

**0 marc**
Dim i'w wobrwyo/effaith nad yw'n esbonio'r ansoddair penodol a ddewiswyd e.e. "Mae'n creu darlun yn fy mhen."

**1 marc**
Esbonio effaith yr ansoddair ar lefel syml ac yn fyr/effaith arwynebol ond yn benodol i'r ansoddair a ddewiswyd

**2 farc**
Esboniad manwl o effaith yr ansoddair gyda'r drafodaeth yn argyhoeddi

Rhaid i'r trafod gysylltu â'r darn.
Mewnbynnu marc
(Gwerthuso)



© WJEC CBAC Cyf.

**A12.** **Cymharwch** brofiadau Iola Wyn a Laura McAllister wrth ddilyn y tîm pêl-droed cenedlaethol i Ffrainc. Gallwch drafod pethau sy'n debyg ac yn wahanol. Dylech gyfeirio at y darn darllen i gefnogi'ch ateb. [7]

Gellir cyfeirio at bwyntiau fel y canlynol:

Tebyg:

- dwy ferch
- y ddwy'n cefnogi Cymru
- diddordeb mewn pêl-droed
- y ddwy wedi gwylio Cymru yn Ffrainc
- y ddwy wedi aros yn Ffrainc
- y ddwy yn teithio i Ffrainc gyda theulu a ffrindiau
- plant gyda'r ddwy ohonynt yn Ffrainc
- y ddwy'n disgrifio mwynhau gyda phobl eraill – Cymry a phobl o wledydd eraill
- y ddwy yn mwynhau clywed yr anthem
- LM ddim yn barod i fynd adref ar ôl y gêm gyntaf ac yn teimlo'u bod ar drothwy rhywbeth mawr/IW yn dymuno i'r gobaith a'r hyder barhau
- y ddwy yn ymwybodol bod hyn yn fwy na phêl-droed yn unig – LM edmygedd byd eang /IW y byd yn dod i wybod am Gymru
- LM yn teimlo'u bod ar drothwy rhywbeth mawr/ IW yn dymuno i'r gobaith a'r hyder barhau

Gwahanol:

- LM – diddordeb o oedran ifanc/IW dim diddordeb ar y dechrau
- LM wedi aros am y profiad gydol ei bywyd
- LM – chwarae pêl-droed yn groten fach/dim sôn am IW yn chwarae
- LM wedi chwarae dros Gymru
- IW yn aros mewn Abaty/LM yn gwersylla gyda ffrindiau a theulu
- IW yn sylwi faint o Gymraeg oedd i'w glywed ar y strydoedd – hyn yn ychwanegu at y profiad iddi hi
- LM wedi gweld bob gêm/IW wedi mynd adref am gyfnod a gwylio gêm Cymru yn erbyn Lloegr ar y teledu
- IW yn mwynhau angerdd yr anthem/LM yn uniaethu gydag emosiwn y chwaraewyr yn ystod yr anthem
- LM yn enwi chwaraewyr a'u llwyddiant yn y gêm/IW ddim yn sôn am y gêm ei hun
- LM yn manylu ar effaith y twrnament ac agwedd Cymdeithas Pêl-droed Cymru



© WJEC CBAC Cyf.

**0 marc**
Dim i'w wobrwyo

**1 marc**
Ateb syml sy'n dangos y gallu i dynnu ambell ffaith o'r darn darllen (1-2 ffaith am y ddwy)/crynhoi profiad ond heb gyfeirio'n benodol

**2 farc**
Nodi rhai o brofiadau'r ddwy ond ddim yn cymharu'n bwrpasol (3 ffaith yr un)

**3 marc**
Dechrau cymharu'n fwriadol brofiadau amlwg y ddwy (4 ffaith neu fwy yr un)

**4 marc**
Cymharu profiadau yn gyson gan gyfeirio at wybodaeth fwy heriol o'r darnau darllen

**5 marc**
Cymharu profiadau yn gyson gan ddechrau dehongli'r profiadau hynny a chyfeirio'n gyson at y darnau darllen

**6 marc**
Cymharu bwriadol a hyderus wybodaeth fwy cynnil gan dynnu casgliadau a chyfeirio'n gyson at y darnau darllen

**7 marc**
Tynnu casgliadau aeddfed wrth ddehongli profiadau'r ddwy gan ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen yn gyson

Ateb ar un person yn unig – 1 marc.

Dylid ystyried ansawdd y dehongli ac ystyried cydbwysedd ffeithiau a dehongli wrth ddyfarnu marc.

d - dehongli
c - cymharu

✓pwynt/ffaith/tystiolaeth (person cyntaf)
✓✓ pwynt/ffaith/tystiolaeth (ail berson)

Mewnbynnu marc
(Cymharu/dehongli/dod i gasgliad)



© WJEC CBAC Cyf.

**A13. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Daeth miloedd o bobl i weld yr arddangosfa ac roedd yn ____________ mawr.

Un marc am nodi:

Llwyddiant
Ni dderbynnir camsillafu.
Ni dderbynnir prif lythyren gan fod y gair ynghanol y frawddeg.
✓ = 1 marc

(ii) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y diwedd sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd y dyn yn gweithio'n galed iawn ac oherwydd hynny fe gafodd…

Un marc am nodi:

ei wobrwyo gyda chyflog ychwanegol.

(iii) Dewiswch dri gair o'r rhestr ganlynol a'u gosod yn y bylchau priodol. Gallwch dreiglo'r geiriau. [3]

**Marc yr un hyd at dri marc am nodi:**

(a) gwell/well

(b) cystal

(c) cenhedlaeth

Ni dderbynnir camsillafu.
Ni dderbynnir prif lythyren gan fod y gair ynghanol y frawddeg.

✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)**

**Prawf ddarllen (5 marc)**

B1. Gosodwch **y** neu **yr** o flaen y geiriau a ganlyn. Dylech dreiglo os oes angen gwneud hynny. Mae un ateb wedi ei roi i chi'n barod. [3]

| Un marc am bob dau ateb cywir hyd at dri marc: | |
|---|---|
| merch | y ferch |
| afal | yr afal |
| ysgol | yr ysgol |
| haf | yr haf |
| gwers | y wers |
| drws | y drws |

1 marc am bob dau ateb cywir.
1 ateb yn gywir – 0 marc
2 ateb yn gywir – 1 marc
3 ateb yn gywir – 1 marc
4 ateb yn gywir – 2 farc
5 ateb yn gywir – 2 farc
6 ateb yn gywir – 3 marc
Ni dderbynnir camsillafu.
Ni dderbynnir prif lythren yn dilyn y fannod.
Mewnbynnu marc

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

Un marc am nodi:

ei chath hi

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [1]

Un marc am nodi:

Dywed Elen **ei bod hi'n (hi yn)/ei bod yn** teimlo'n sâl.

✓ = 1 marc
ei bod hi'n/ei bod – rhaid sillafu'n gywir



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN*** <br> ***(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc** <br> • Peth ysgrifennu cydlynol <br> • Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd <br> • Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd <br> • Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol <br> • Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc** <br> • Defnyddio peth ystod o eirfa <br> • Gafael anghyson ar ramadeg <br> • Amrywio brawddegau rywfaint <br> • Peth gafael ar gystrawen <br> • Peth gafael ar ystod o atalnodi <br> • Sillafu yn eithaf cywir <br> • Treigladau yn eithaf cywir <br> • Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc** <br> • Ysgrifennu cydlynol elfennol <br> • Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd <br> • Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa <br> • Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson <br> • Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc** <br> • Ystod gyfyngedig o eirfa <br> • Gafael gyfyngedig ar ramadeg <br> • Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau <br> • Gafael gyfyngedig ar gystrawen <br> • Peth ymdrech i atalnodi <br> • Sillafu rhai geiriau yn gywir <br> • Gafael gyfyngedig ar dreigladau <br> • Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.